Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

21 Ionawr 2020

Craffu ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft

Annwyl Lywydd

Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ('y Pwyllgor') wedi bod yn craffu'n ddiweddar ar ddrafft cyntaf Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, cytunodd y Pwyllgor y dylwn i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn iddo "gyflwyno cynigion i hwyluso'r gwaith o graffu ar yr FfDC drafft yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015."

Pennwyd y broses o ddatblygu FfDC yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'). Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r FfDC drafft cyntaf ym mis Ebrill 2020.

Mae'r Ddeddf yn nodi fframwaith ar gyfer gwaith craffu'r Cynulliad mewn perthynas â'r FfDC drafft. Mae'r darpariaethau wedi'u cynnwys yn llawn yn yr Atodiad i'r llythyr hwn, ac maent yn cael eu hesbonio isod. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ofyn i weithdrefnau Cynulliad gael eu cyflwyno fel sylfaen i'r broses graffu a ddisgrifir yn y Ddeddf. Nid yw'r Pwyllgor wedi gwneud unrhyw argymhellion i Lywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn, o gofio bod ei gynigion, i raddau helaeth, yn adlewyrchu darpariaethau sydd eisoes wedi'u hymgorffori yn y gyfraith.

**Darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 sy'n ymwneud â'r FfDC**

- Mae adran 3(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod FfDC drafft gerbron y Cynulliad ynghyd ag adroddiad sy'n crynhoi'r ymatebion i'w

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
0300 200 6565

ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y drafft ac sy’n esbonio sut y cafodd yr ymatebion eu hystyried.

- Cyn gynted ag y caiff yr FfDC drafft ei osod, bydd y cyfnod statudol sydd ar gael i’r Cynulliad ei drafod yn dechrau.  Caiff hyn ei ddiffinio yn y Ddeddf fel y cyfnod o 60 diwrnod sy’n dechrau ar y diwrnod y caiff yr FfDC drafft ei osod, gan ddiystyru unrhyw gyfnod pan fydd y Cynulliad wedi’i ddiddymu neu pan fydd toriad o fwy na phedwar diwrnod.

- Mae adran 3 yn darparu i’r Cynulliad drafod yr FfDC drafft yn ystod y cyfnod o 60 diwrnod.  Mae adran 3(4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw benderfyniad a gaiff ei dderbyn gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn ac unrhyw argymhelliad a wneir gan un o bwyllgorau’r Cynulliad yn ystod y cyfnod o 60 diwrnod.

- Ar ôl y cyfnod o 60 diwrnod sydd ar gael i’r Cynulliad drafod yr FfDC, caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi fersiwn derfynol ohono, heb ei ddiwygio. Fodd bynnag, os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu newid yr FfDC drafft, cânt osod drafft diwygiedig o’r FfDC gerbron y Cynulliad a’i gyhoeddi.

- Os bydd y Cynulliad, neu unrhyw un o’i bwyllgorau, yn cytuno ar benderfyniad neu’n gwneud unrhyw argymhellion yn ystod y cyfnod o 60 diwrnod, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Cynulliad yn egluro sut y maent wedi ystyried pob penderfyniad neu argymhelliad, gan wneud hynny erbyn y diwrnod y caiff yr FfDC ei gyhoeddi, fan bellaf.

**Materion i’w hystyried**

*Dadl yn y Cyfarfod Llawn*

Yn wahanol i ddeddfwriaeth gyfatebol mewn mannau eraill, fel Deddf Cynllunio'r Alban, nid yw'n ofynnol i'r FfDC drafft gael ei gymeradwyo gan benderfyniad y Cynulliad. Er bod y Ddeddf yn cyfeirio at benderfynaidau’r Cynulliad, nid yw’n ofynnol cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn nac i’r Cynulliad gytuno ar yr FfDC.  Nid yw darpariaethau'r Ddeddf yn atal unrhyw unigolyn neu grŵp rhag cyflwyno cynigion mewn perthynas â'r FfDC drafft.

*Trafodaeth pwyllgorau*

Er bod y Ddeddf yn cyfeirio at argymhellion a allai gael eu gwneud gan bwyllgorau'r Cynulliad, nid yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r FfDC gael ei drafod gan bwyllgorau'r Cynulliad, ac nid yw ychwaith yn rhagnodi sut y dylai pwyllgorau ei drafod. Mae hyn i'w groesawu a bydd yn galluogi'r Cynulliad i benderfynu ar ei weithdrefnau.

*Dogfennau cysylltiedig*

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod, ochr yn ochr â'r FfDC drafft, adroddiad sy'n crynhoi'r sylwadau a gafodd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y drafft. Nid oes gofyniad i osod unrhyw ddogfen arall.

**Cais y Pwyllgor**

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ofyn i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno cynigion i hwyluso'r gwaith o graffu ar yr FfDC drafft yn unol â Deddf Cynllunio 2015.

Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai cyflwyno Rheol Sefydlog dros dro yn briodol, o ystyried y bydd y Cynulliad yn craffu ar FfDC drafft bob pum mlynedd. Byddai hyn yn caniatáu i'r Cynulliad nesaf ddatblygu a chytuno ar ddull y mae'n credu sy'n briodol, yn ddarostyngedig i'r fframwaith a nodir yn y Ddeddf, ond a gaiff ei lywio gan y profiad o graffu ar yr FfDC drafft cyntaf. Byddai hyn hefyd yn sicrhau tryloywder, o gofio bod fframwaith y weithdrefn ar gyfer y broses graffu wedi'i gynnwys mewn Deddf y cytunwyd arni yn 2015, yn ystod Cynulliad blaenorol.

Dylai'r Rheol Sefydlog dros dro adlewyrchu darpariaethau'r Ddeddf a dylai:

- Ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru osod yr FfDC drafft a dogfennau perthnasol, fel asesiadau o effaith;
- Darparu i'r Pwyllgor Busnes gyfeirio'r FfDC drafft at unrhyw bwyllgor neu bwyllgorau'r Cynulliad er mwyn iddynt ei drafod a pharatoi adroddiad arno, ac i'r Pwyllgor Busnes bennu amserlen ar gyfer y gwaith hwnnw; ac
- Ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod amser ar gael yn y Cyfarfod Llawn i drafod yr FfDC drafft, yn seiliedig ar gynnig y gellir ei ddiwygio gan y Llywodraeth. Nid cynnig i'r Cynulliad gymeradwyo'r FfDC ddrafft fyddai hwn, ond cyfle ffurfiol i'r Cynulliad fynegi ei farn.

Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Pwyllgor Busnes ymgynghori â Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid allanol a phwyllgorau'r Cynulliad ynghylch ei chynigion. Fodd bynnag, rwy'n

cydnabod ei bod yn annhebygol y bydd digon o amser i gynnal ymgynghoriad y tro hwn, o ystyried yr angen dybryd i gyflwyno gweithdrefnau priodol erbyn i'r FfDC gael ei gyflwyno ym mis Ebrill. Nodaf hefyd y bydd y Pwyllgor Busnes yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru wrth iddo drafod y cynigion hyn. Efallai y byddai'n briodiol i

Bwyllgor CCERA neu ei olynydd drafod pa mor effeithiol yw'r broses graffu maes o law gan wneud hynny mewn ymgynghoriad ag eraill.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech dynnu sylw'r Pwyllgor Busnes ar y materion hyn.

Yn gywir



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad**

**Gweithdrefn ar gyfer paratoi a chyhoeddi Fframwaith.**

(1) Cyn cyhoeddi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru, rhaid i Weinidogion Cymru.

(a) paratoi drafft o'r Fframwaith,

(b) cynnal arfarniad o gynaliadwyedd y polisïau a nodir yn y drafft, a

(c) cynnal ymgynghoriad yn unol â'r datganiad am gyfranogiad y cyhoedd.

(2) Rhaid i'r arfarfniad o dan is-adran (1)(b) gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y polisïau yn y Fframwaith drafft yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg.

(3) Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r Fframwaith drafft (gyda newidiadau neu hebddynt) ar ôl cydymffurfio ag isadran (1), rhaid iddynt osod y canlynol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru-

(a) y drafft,

(b) adroddiad sy'n—

(i) crynhoi'r sylwadau a gawsant yn ystod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o dan isadran (1)(c), a

(ii) esbonio sut y cafodd yr ymatebion eu hystyried.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried—

(a) unrhyw benderfyniad y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno arno mewn perthynas â'r Fframwaith drafft yn ystod y cyfnod craffu

(b) unrhyw argymhelliad gan un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â'r drafft yn ystod y cyfnod hwnnw.

(5) Ar ôl i'r cyfnod craffu o 60 diwrnod ddod i ben, caiff Gweinidogion Cymru—

(a) cyhoeddi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru yn nhermau'r drafft a osodwyd o dan isadran (3), neu

(b) os ydynt yn cynnig gwneud newidiadau i'r drafft hwnnw, cânt—

(a) gosod drafft diwygiedig o’r Fframwaith gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(a) cyhoeddi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru yn nhermau’r drafft diwygiedig.

(6) Os caiff penderfyniad ei basio neu os gwneir argymhelliad fel y nodir yn isadran (4), rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd osod datganiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn esbonio sut yr ystyriwyd y penderfyniad neu’r argymhelliad, gan wneud hynny erbyn y diwrnod y cyhoeddir y datganiad, fan bellaf.

(7) yn yr adran hon, ystyr “cyfnod craffu’r Cynulliad” yw’r cyfnod o 60 diwrnod sy’n dechrau ar y diwrnod y caiff y drafft o’r Fframwaith ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan isadran (3), gan ddiystyru unrhyw gyfnod pan fydd y Cynulliad wedi’i ddiddymu neu pan fydd toriad o fwy na phedwar diwrnod.